

AMDANOM NI ABOUT US

Mae Green GEN Cymru yn rhan o Grŵp Bute Energy, a bydd yn cysylltu'r ynni adnewyddadwy a gynhrychir gan barciau ynni Bute Energy.

Rydyn ni'n gwneud cais i Ofgem am drwydded drydan fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol. Rydyn ni'n bwriadu adeiladu a gweithredu rhwydwaith trydan ar gyfer ynni adnewyddadwy newydd.

Bydd ein cysylltiadau'n sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn cael ei gludo i'n cartrefi, ein hysbytai, ein hysgolion, ein busnesau a'n cymunedau. Rydyn ni'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o greu rhwydwaith mwy cadarn a dibynadwy – gan ddarparu ar gyfer dyfodol lle bydd pob un ohonom yn dibynnu mwy ar drydan, wrth i ni symud oddi wrth nwy ac olew.

Green GEN Cymru is part of the Bute Energy group and will connect the renewable energy generated by Bute Energy's energy parks.

We are applying to Ofgem for an electricity licence as an Independent Distribution Network Operator (IDNO). We have plans to build and operate an electricity network for new renewables.

Our connections will make sure renewable energy can flow to our homes, hospitals, schools, businesses, and communities. We're playing a pivotal role in creating a more resilient and reliable network – providing for a future in which we all rely more on electricity as we move away from gas and oil.



Sganiwch y côd QR i gael mynediad i'n gwefan

Scan the QR code to access our website



YR ARGYFWNG HINSAWDD

THE CLIMATE EMERGENCY

Mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth bywoliaeth pobl, ein tirweddau a’n bywyd gwyllt.


Mae cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy, a rhoi terfyn ar ddefnyddio tanwydd ffosil, yn nod allweddol i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd – argyfwng a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Cyngor Sir Gâr.

Mae pawb yn cytuno bod angen gweithredu ar frys i ddiogelu cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Climate change is threatening our livelihoods, landscapes and wildlife.

Generating more energy from renewable sources and ending the use of fossil fuels is a key aim in addressing the climate emergency – an emergency recognised by the Welsh Government, by Ceredigion County Council, and Carmarthenshire County Council.

All agree that urgent action is needed to protect current and future generations from the effects of climate change.



Cyngor Sir Ceredigion – Cyflawni Sero Net erbyn 2030



“Mae angen ymateb i’r argyfwng hinsawdd ar bob lefel. Yng Ngheredigion mae angen i ni ymateb ar lefel sirol ac felly mae angen i sefydliadau ac unigolion o bob cwr o’r sir ddod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion a sicrhau bod newid sylweddol yn digwydd yn gyflym.”

Ceredigion County Council – Achieving Net Zero by 2030



“The climate emergency needs to be responded to at every level. In Ceredigion we need to respond at a county-wide level and as such organisations and individuals from across the county need to come together to find solutions and ensure substantial change happens quickly.”

Cyngor Sir Gâr - Cynllun Gweithredu Carbon Net



“Rydyn ni wedi ymrwymo i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd ac rydyn ni’n cydnabod bod gennym rôl bwysig i’w chwarae o ran lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain ymhellach, a darparu’r arweiniad i annog preswylwyr, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu.”

Carmarthenshire County Council - Net Carbon Action Plan



“We are committed to tackling climate change and acknowledge that we have a significant role to play in both further reducing our own greenhouse gas emissions and providing the leadership to encourage residents, businesses and other organisations to take action.”



Sganiwch y côd QR i gael mynediad i’n gwefan

Scan the QR code to access our website



CYSYLLTIAD TYWI TEIFI

THE TOWY TEIFI CONNECTION

Nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i gysylltu'r parciau ynni arfaethedig. Mae Green GEN Cymru yn darparu cysylltiad newydd er mwyn gallu defnyddio'r ynni a gynhyrchir mewn cartrefi a busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol.


Mae angen i'r cysylltiad newydd fod â digon o gapasiti i gludo'r ynni o Lan Fawr, a datblygiadau gwynt posibl eraill ar y tir yng Nghymru, i'r Grid Cenedlaethol. Rydyn ni wedi asesu opsiynau ar gyfer sut a ble i gysylltu'r Parciau Ynni newydd â'r rhwydwaith presennol, gan edrych ar opsiynau yn y Gogledd ac yn y De.

Bydd y cysylltiad 132kV newydd yn cysylltu Parc Ynni Lan Fawr ag is-orsaf 400kV newydd yn Llandyfaelog, ger Caerfyrddin. Mae'r is-orsaf yn cael ei datblygu gan National Grid Electricity Transmission, a bydd hefyd yn cysylltu cynllun Green GEN Tywi Wysg â National Grid Electricity Distribution. Bydd National Grid yn rhannu cynlluniau am ei gynigion yn ei ymgynghoriad yn 2024, cyn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Gâr yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

The existing electricity network does not have the capacity to connect the proposed energy parks. Green GEN Cymru is providing a new connection so the energy generated can be used in homes and businesses, locally and nationally.

The new connection needs to have sufficient capacity to carry the energy from Lan Fawr and other potential onshore wind developments in Wales to the National Grid. We've assessed options for how and where to connect the new Energy Parks to the existing network, looking at options in North and South Wales.

The new 132kV connection will connect into a new 400kV substation at Llandyfaelog, near Carmarthen. The substation is being developed by National Grid Electricity Transmission and will also connect the Green GEN Towy Usk scheme and National Grid Electricity Distribution. National Grid will be sharing plans about its proposals at their consultation in early 2024, ahead of submitting a planning application to Carmarthenshire County Council later in the year.



Sganiwch y côd QR i gael mynediad i'n gwefan

Scan the QR code to access our website



NODI'R LLWYBR SY'N CAEL EI FFAFRIO


IDENTIFYING THE PREFERRED ROUTE

Wrth ddatblygu'r llwybr sy'n cael ei ffafrio, fe wnaethom ystyried Rheolau Holford, sy'n nodi egwyddorion ar gyfer pennu llwybr llinellau uwchben, gan gynnwys dewis cefndiroedd naturiol yn hytrach na chefnidiroedd awyr, a defnyddio dyffrynnoedd agored gydag ardaloedd coediog yn hytrach nag ardaloedd o dir uwch.

Yr opsiwn gorau fyddai cysylltu â phwynt ger Caerfyrddin, gyda llwybr yn mynd drwy ddyffryn Teifi. Byddai hyn yn arwain at lwybr tua 52km i gyd.

While developing the preferred route, we considered the Holford Rules which set out principles for routeing overhead lines, choosing natural backgrounds rather than sky backgrounds, and using open valleys with wooded areas rather than areas of higher ground.

The best performing option connects to a point near Carmarthen, with a route through the Teifi valley. This would result in a total route length of approximately 52km.



Effeithiau gweledol

Visual effects

Fel rhan o'n gwaith, fe wnaethom asesu'r materion canlynol:

In our work we assessed:



Effeithiau cymunedol

Community effects



Costau

Costs



Yr amgylchedd a threftadaeth

Environment and heritage



Anghenion technegol

Technical needs




PAM PEILONAU? WHY PYLONS?

Mae peilonau’n ymddangos mewn llawer o leoliadau lle mae tirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn rhannau ffyniannus o’r economi leol – mae seilwaith trydanol a’r gweithgareddau hyn yn cydfodoli mewn sawl lle.

Mae peilonau’n cael eu defnyddio ym mhob cwr o’r byd fel ffordd o gysylltu ynni’n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon.

Pylons feature in many places where landscape, agriculture and tourism are thriving parts of the local economy – electrical infrastructure and these activities co-exist in many places.

They are used all over the world as a proven means of connecting energy safely, reliably and efficiently.



- Gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflym i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd
- Mae ceblau o dan y ddaear fel arfer rhwng 6 a 10 gwaith yn ddrutach na llinellau uwchben
- Mae angen mwy o dir ar geblau o dan y ddaear, a gallant amharu mwy ar y tir yn ystod y cyfnod adeiladu

- Overhead lines can be developed quickly to tackle the climate emergency
- Underground cables are typically between 6 and 10 times more expensive than overhead lines
- Underground cables require more land and can create more ground disturbance during construction



RHWYDWAITH I GEFNOGI'R RHANBARTH

A NETWORK TO SUPPORT THE REGION

Mae'r seilwaith sydd ei angen arnom i bontio i economi carbon isel hefyd yn gallu dod â llawer o fanteision. Mae ganddo'r potensial i greu sgiliau a swyddi newydd, yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd yn cefnogi'r defnydd o dechnolegau carbon isel yn ein cartrefi a'n busnesau.

Yn ogystal, gallai ein prosiect gyfrannu at rwydwaith mwy gwydn a dibynadwy ar gyfer y rhanbarth – gan ddarparu ar gyfer dyfodol lle mae pob un ohonom yn dibynnu mwy ar drydan, wrth i ni symud oddi wrth nwy ac olew.

Mae cael rhwydwaith trydanol sy'n perfformio'n dda yn allweddol er mwyn:

The infrastructure we need to transition to a low carbon economy can also bring many benefits. It has the potential to create new skills and jobs, nationally and locally. And it will support the adoption of low carbon technologies in our homes and businesses.

Our project can also contribute to a more resilient and reliable network for the region – providing for a future in which we all rely more on electricity as we move away from oil and gas.

A high performing electrical network is key to:




Sicrhau bod cartrefi, addysg a busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol, yn cael mynediad at ynni carbon isel

Ensuring homes, education and businesses, both locally and nationally, have access to low carbon energy



Newid i ddyfodol lle byddwn yn rhoi'r gorau i ddefnyddio olew a nwy

Making the transition to a future in which we end the use of oil and gas



Cefnogi'r gwaith o gyflwyno technolegau carbon isel fel cerbydau trydan, pypiau gwres a thechnolegau eraill a fydd yn cael eu hystyried yn normal yn y dyfodol

Supporting the roll out of low carbon technologies such as electric vehicles, heat pumps and other technologies that will be normal in the future



Helpu cymunedau i ffynnu drwy ddarparu capasiti trydanol i gefnogi buddsoddiad mewn swyddi, busnesau a thai

Helping communities prosper by providing electrical capacity to support investment in jobs, businesses, and housing



DWEUD EICH DWEUD

HAVE YOUR SAY

Mae'r ymgynghoriad ar agor o
24 Ionawr – 6 Mawrth 2024.

This consultation is open from
24 January – 6 March 2024.

Rydyn ni'n ymgynghori ar y canlynol:

- Y llwybr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y llinell uwchben drwy Geredigion a Sir Gaerfyrddin

We're consulting on:

- The preferred route we've identified for an overhead line through Ceredigion and Carmarthenshire

Rydyn ni'n gofyn am adborth ar y canlynol:

- Unrhyw ffactorau rydych chi'n teimlo nad ydynt wedi cael eu hystyried yn ein gwaith hyd yma, gan gynnwys nodi'r llwybr sy'n cael ei ffafrio
- Unrhyw ffactorau y dylem eu hystyried yn eich barn chi wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y llwybr sy'n cael ei ffafrio

We're asking for your feedback on:

- Any factors you feel have not been considered in our work to date, including the identification of the preferred route
- Any factors you think we should consider when developing our proposals for the preferred route

Sut mae darparu tystiolaeth:

llenwi'r ffurflen adborth ar ein gwefan:
www.greengentowyteifi.com

anfon e-bost i:
info@greengentowyteifi.com

anfon adborth ysgrifenedig atom:
FREEPOST Green GEN Cymru TT

How to provide feedback:

online feedback form on our website:
www.greengentowyteifi.com

sending an email to:
info@greengentowyteifi.com

sending written feedback to us:
FREEPOST Green GEN Cymru TT



Sganiwch y côd QR i gael mynediad i'n gwefan

Scan the QR code to access our website



AMSERLEN EIN PROSIECT

OUR PROJECT TIMELINE

Mae prosiect Tywi Teifi yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw mai llinell drydan uwchben 132kV yw'r prosiect sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig.


Bydd y cais, felly, yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w adolygu, cyn y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

Fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae'r prosiect yn rhwym wrth lawer o ofynion, gan gynnwys asesiad amgylcheddol trylwyr ac ymgynghoriad cyhoeddus â'r gymuned a rhanddeiliaid.

The Towy Teifi project qualifies as a Development of National Significance (DNS) in Wales. This is because it's an overhead electric line of 132kV which is associated with a devolved generation station.

As such, the application will be submitted to the Planning and Environment Decisions Wales (PEDW) for review, before a final decision will be made by Welsh Ministers.

As a DNS, the project is subject to many requirements including a thorough environmental assessment and public consultation with community and stakeholders.



Buddsoddi mewn cymunedau

Investing in communities

Dros gyfnod o 40 mlynedd, bydd Bute Energy yn buddsoddi oddeutu £800 miliwn yn y cymunedau sydd agosaf at ein prosiectau, a hynny drwy Gronfa Budd Cymunedol a reolir yn annibynnol. Bydd y gronfa'n agored i gynigion gan sefydliadau a grwpiau, a hynny er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar y cymunedau sydd agosaf at y Parciau Ynni a'r prosiectau llinellau grid cysylltiedig.

Mae Bute eisoes yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi gwelliannau hamdden, iechyd a llesiant
- Gwella'r ddarpariaeth addysg yn lleol
- Nodi rhagor o lwybrau at gyflogaeth i bobl leol
- Tynnu sylw at gyfleoedd i ddathlu a hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a bioamrywiaeth lleol

Dwedwch wrthym sut gallwn ni gefnogi prosiectau a mynd i'r afael â materion yn eich cymunedau, er mwyn i'n prosiectau ddod â budd gwirioneddol i bobl leol.

Bute Energy will be investing approximately £800m over 40 years in the communities closest to our projects through an independently governed Community Benefit Fund. The fund will be open to proposals from organisations and groups impacting positively on communities closest to the Energy Parks and associated grid line projects.

Bute are already:

- Supporting recreational, health and wellbeing improvements
- Enhancing local education offering
- Identifying more pathways into employment for local people
- Highlighting opportunities to celebrate local culture, heritage and biodiversity

Let us know how we can support projects and tackle issues in your communities, so our projects can deliver real benefits to local people.

